# Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com

**www.llanhari.com**

27ain o Fedi 2023

Annwyl Rieni a Gofalwyr blwyddyn 6 y clwstwr

Edrychwn yn fawr am groesawu disgyblion blwyddyn 6 i Lanhari Dydd Mercher nesaf y 4ydd o Hydref. Fe welwch o'r daflen sydd wedi ei hatodi mai dyma'r cyntaf o dri diwrnod pontio i'r disgyblion yn ystod y flwyddyn hon. Rydym wedi cynllunio diwrnod cyffrous o weithgareddau Celfyddydau Mynegiannol i'r disgyblion ac yn ystod gweddill yr ymweliadau bydd cyfle i'ch plant i gael blas ar wahanol bynciau yr adran uwchradd yn Ysgol Llanhari, dod i adnabod eu cyd-ddisgyblion a'r staff.

Hyfryd fu croesawu cynifer ohonoch fel rhieni presennol Dosbarth Barcud a darpar rieni y clwstwr i'r ysgol yn ystod Tymor yr Haf ac ers hynny, rydym wedi dathlu llwyddiannau niferus yn yr arholiadau Safon Uwch a TGAU. Llwyddodd yr holl ddisgyblion oedd yn dymuno mynd i Brifysgol i gael lle, felly rydym yn falch iawn ohonynt wrth iddynt gymryd y cam nesaf yn eu gyrfa addysgol. Roedd canlyniadau TGAU Haf 2023 yn ardderchog gyda'r disgyblion ar draws yr ystod gallu yn llwyddo i gyrraedd eu potensial. Mae'n hadnabyddiaeth o bob disgybl a gallu'r athrawon i gael y gorau allan o bob unigolyn, beth bynnag ei (g)allu yn amlwg yn cael ei adlewyrchu yn y canlyniadau. Gallwch fod yn ffyddiog bod eich plentyn mewn dwylo da ym mis Medi! Testun balchder arbennig yw'r ffaith bod 26.5% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill 5 neu fwy o raddau A*-A. Enillodd 87% o'r disgyblion raddau A*-C mewn pum neu fwy o bynciau ac o'r nifer yma enillodd 70% o'r disgyblion o leiaf deg gradd TGAU A*-C. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roeddem yn falch iawn bod rhai ohonoch fel rhieni wedi ymateb i'r gwahoddiad i'n pnawn coffi yr wythnos hon. Mae croeso i unrhywun ohonoch i gysylltu â ni er mwyn ymweld â'r ysgol cyn ichi benderfynu ar y cam nesaf i'ch plentyn. Byddwn yn falch iawn i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, yn enwedig os ydych yn poeni am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn os nad ydych chi'n siarad Cymraeg neu os ydych yn poeni am les eich plentyn a'i (g)allu academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym ni yma i'ch helpu chi a'ch plentyn a lleddfu eich pryderon os oes gennych gwestiynau. Ymhyfrydwn yn y ffaith ein bod yn ysgol gynhwysol a bod ein cefnogaeth i'n disgyblion yn benigamp! Cysylltwch â ni ar ebost post@llanhari.com os gwelwch yn dda.

Mae blas ar holl weithgareddau'r adran uwchradd yn yr ysgol i'w weld ar ein cyfri trydar X ac Instagram. Yno cewch ddarlun llawn o'n hysgol brysur a'r holl gyfleon sydd ar gael i'r disgyblion!

Yn gywir

M Thomas

Meinir Thomas
Pennaeth

# Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
**www.llanhari.com**

27th of September 2023

Dear Parents and Carers of year 6 pupils of our cluster

We look forward to welcoming year 6 pupils to Llanhari next Wednesday the 4th of October. You will see from the attached leaflet that this is the first of three transition days for the pupils during this academic year. We have planned an exciting day of Expressive Arts activities for the pupils and during the remainder of the visits your children will have the opportunity to get a taste of the various subjects on offer at the secondary department at Ysgol Llanhari, get to know pupils in their year group and the staff.

It was wonderful to welcome so many of you as current Barcud parents and prospective parents from the cluster to the school during the Summer Term and since then, we have celebrated many successes in the A level and GCSE exams. All the pupils who wished to go to University were successful in obtaining a place, so we are very proud of them as they take their next steps in their educational career. The GCSE Summer 2023 results were excellent with pupils across the ability range succeeding to reach their potential. The teachers are able to get the best out of each individual, whatever their ability and this is clearly reflected in the results. You can be confident that your child is in good hands in September! The fact that 26.5% of the pupils managed to gain 5 or more A*-A grades is particularly noteworthy. 87% of the pupils gained A*-C grades in five or more subjects and of this total, 70% of the pupils gained at least ten A*-C GCSE grades. This is considerably higher than the national average.

We were very pleased that some of you as parents attended our coffee afternoon this week. All year 6 parents are welcome to contact us if you would like to visit the school before you decide on the next step for your child. We will be very pleased to answer any questions you may have, especially if you are concerned about Welsh-medium secondary education for your child if you do not speak Welsh or if you are concerned about your child's wellbeing and his/her academic ability through the medium of Welsh. We are here to help you and your child and ease your worries if you have questions. We pride ourselves on being an inclusive school and that our support for our pupils is excellent! Please contact us by email at post@llanhari.com

A taste of all the secondary department's activities can be seen on our Twitter X and Instagram account. You will get a full picture of our busy school and all the opportunities available to the pupils!

Yours sincerely

M Thomas

Meinir Thomas
Headteacher